Defnyddwyr a Grwpiau

Gallwch osod rhestrau o ddefnyddwyr ar y ddisg mewn grwpiau. Trwy greu a dewis grŵp o'r rhestr ddisgynnol bydd yn sicrhau fod rhaid i ddefnyddwyr fewngofnodi gan ddewis eu enw o'r rhestr a welir ar y dudalen.

Er enghraifft, dyma ddau grŵp:

- Dosbarth 1
    - Alan
    - Elizabeth
    - George
- Dosbarth 2
    - Caroline
    - David
    - Sarah
    - Tom

Bydd dewis 'Dosbarth 1' o'r rhestr ddisgynnol **Grŵp Defnyddwyr** ar y dudalen **Dewisiadau** a wedyn clicio ar **Diweddaru**, yn sicrhau y bydd yn rhaid i ddefnyddiwr ddewis o'r enwau 'Alan', 'Elizabeth' neu 'George' cyn y bydd yn gallu mynd ymhellach i weithgareddau'r ddisg.

Gellir ymweld a'r dudalen Defnyddwyr trwy glicio ar y botwm **Defnyddwyr** ar y dudalen **Dewisiadau**. Gweler yr adran benodol ar **Dudalen y Defnyddwyr** isod am ragor o gymorth gyda sefydlu grwpiau a defnyddwyr.

Bydd troi'r nodwedd mewngofnodi ymlaen (trwy ddewis grwp o'r rhestr **Grŵp Defnyddwyr**) yn galluogi dwy nodwedd arbennig arall sef:

Amserydd

Os ydych wedi penodi rhif yn y golofn **Hyd y Sesiwn** (ar y dudalen **Dewisiadau**), bydd amserydd yn dechrau bob tro y bydd defnyddiwr yn mewngofnodi, bydd hefyd yn dangos neges 'Mae dy amser ar ben!' pan mae'r amser a nodwyd gennych wedi dod i ben. Yna bydd angen i ddefnyddiwr arall fewngofnodi er mwyn parhau i ddefnyddio'r ddisg.

Adroddiad Gweithgareddau

Unwaith mae defnyddiwr wedi mewngofnodi, bydd y rhaglen yn cadw cofnod o'r gweithgareddau a ddefnyddir ganddo. Gallwch ddarllen ac argraffu'r adroddiad gweithgareddau trwy ddefnyddio'r botwm **Dangos Adroddiad** ar y dudalen **Defnyddwyr** – gweler isod.

Y Dudalen Defnyddwyr

Creu grŵp newydd

Cliciwch ar y botwm Ychwanegu i'r dde o'r rhestr Grwpiau ddisgynnol. Teipiwch enw newydd yn y blwch deialog sy'n ymddangos ac yna cliciwch **Iawn** i'w gadarnhau. Bydd y grŵp newydd yn ymddangos yn y rhestr ddisgynnol.

Ailenwi grŵp

Dewisiwch y grŵp yr hoffech ei ailenwi o'r rhestr **Grwpiau** ddisgynnol, wedyn cliciwch ar y botwm **Ailenwi** sydd i'r dde o'r rhestr. Golygwch enw'r grŵp yn y blwch deialog sy'n ymddangos ac yna cliciwch **Iawn** i'w gadarnhau.

Dileu grŵp

Dewisiwch y grŵp yr hoffech ei ddileu o'r rhestr Grwpiau ddisgynnol, yna cliciwch ar y botwm **Dileu** sydd i'r dde o'r rhestr. Cliciwch ar **Iawn** i gadarnhau.

Nodwch: bydd yr holl ddefnyddwyr sydd yn y grŵp yn cael eu dileu yn gyfangwbwl o'r system hefyd.

Ychwanegu defnyddiwr newydd i grŵp

Dewisiwch y grŵp cywir yn y rhestr **Grwpiau** ddisgynnol, yna cliciwch ar y botwm **Ychwanegu** sydd i'r dde o'r rhestr **Defnyddwyr**. Teipiwch enw'r defnyddiwr newydd yn y blwch deialog sy'n ymddangos, ac yn cliciwch **Iawn** i'w gadarnhau. Bydd eich defnyddiwr newydd yn cael ei ychwanegu i'r rhestr **Defnyddwyr** a'i ddewis.

Ailenwi defnyddiwr

Dewisiwch enw'r defnyddiwr yn y rhestr **Defnyddwyr**, yna cliciwch ar y botwm **Ailenwi** sydd i'r dde o'r rhestr. Bydd blwch dialog yn ymddangos ac yn gofyn i chi olygu'r enw. Unwaith rydych chi'n hapus gyda'r enw newydd cliciwch ar **Iawn** i'w gadarnhau.

Dileu defnyddiwr

Dewisiwch enw'r defnyddiwr yn y rhestr **Defnyddwyr**, yna cliciwch ar y botwm **Dileu** sydd i'r dde o'r rhestr. Cliciwch **Iawn** i gadarnhau eich bod am ei ddileu.

Dewis llun i gyd-fynd a defnyddiwr

Gellir dewis llun i gyd-fynd a phob enw defnyddiwr, er mwyn i ddefnyddwyr weld llun gyda'u henw ar y sgrin mewngofnodi.

I wneud hyn, dewiswch yr enw cywir o'r rhestr **Defnyddwyr**, ac yna defnyddiwch y sgroliwr ar ymyl y blwch sydd i'r dde o'r rhestr **Defnyddwyr** i ddewis delwedd ar gyfer y defnyddiwr, yna chliciwch ar y ddelwedd briodol.

Rhannu Grwpiau a Defnyddwyr

Bydd disgiau diweddaraf B-DAG i gyd yn rhannu'r un rhestrau defnyddwyr a grwpiau rhyngddynt. Felly, os oes gennych fwy nag un o ddisgiau B-DAG wedi'i gosod ar eich cyfrifiadur, dim ond unwaith y bydd rhaid i chi sefydlu grwpiau a enwau; bydd yr enwau (a'r delweddau sy'n cyd-fynd a hwy) yn ymddangos ar yr holl ddisgiau. Serch hynny, bydd adroddiadau gweithgaredd yn cael eu cadw ar wahan a gallwch reoli pa grwp defnyddwyr i'w dewis (ar gyfer mewgofnodi) ar bob disg yn annibynnol.

Darllen ac Argraffu Adroddiadau Gweithgareddau

Gallwch arddangos adroddiad gweithgareddau ar gyfer yr holl grwpiau neu ar gyfer grŵp penodol, trwy ddewis grŵp o'r rhestr **Grwpiau** ddisgynnol o dan **Adroddiadau**, yna cliciwch ar y botwm **Dangos Adroddiad**.

***Nodyn* – fe all hyn gymryd peth amser, gan fod y rhaglen yn lansio eich porwr i weld yr adroddiad. Bydd angen aros am gyfnod byr cyn i'ch porwr ymddangos.**

Unwaith mae'r porwr wedi ymddangos, gallwch fynd yn ôl at gynnwys y ddisg trwy glicio ar ei enw yn y bar ar waleod y sgrin, neu trwy gylchdroi drwy'r rhaglenni sy'n agored ar eich peiriant trwy ddefnyddio'r botymau ALT+TAB.

Os ydych chi'n rhedeg y rhaglen ar sgrin lawn (gweler esboniad ar y dudalen **Dewisiadau** uchod) efallai y gwelwch eich sgrin yn lleihau tra rydych yn edrych ar yr adroddiad; mae hyn yn hollol naturiol. Pan fyddwch yn dychwelyd i'r rhaglen bydd yn dychwelyd i'r sgrin lawn yn awtomatig.

I argraffu'r adroddiad, defnyddiwch y ffordd arferol o argraffu o'ch porwr (gellir dod o hyd i'r botwm argraffu gan amlaf yn newislen **File**).

Darllen Adroddiad Gweithgareddau

Dyma enghraifft o adroddiad gweithgareddau ar gyfer defnyddiwr.

	Gweithgaredd Lliwio			Gweithgaredd Darllen			Gweithgaredd Ysgrifennu		
Amser	H	C	A	H	C	A	H	C	A
19/07/05 11:51:28	2/2			0/1		0/1	1/1		
21/07/05 10:12:04		3/4		3/3	1/3		1/1		

Dyma'r hyn a nodir ynddo:

- Yn y sesiwn a ddechreuodd ar y 19/07/05 am 11:51, fe chwaraeodd y defnyddiwr y canlynol:
    - Lefel Hawdd y Weithgaredd Lliwio ddwywaith a fe'i gwblhawyd yn llwyddiannus ddwywaith.
    - Lefel Hawdd y Weithgaredd Ddarllen unwaith, ond heb ei gwblhau.
    - Lefel Anodd y Weithgaredd Ddarllen unwaith, ond heb ei gwblhau.
    - Lefel Hawdd y Weithgaredd Ysgrifennu unwaith ac fe'i gwblhawyd yn llwyddiannus.
- Yn y sesiwn a ddechreuodd ar y 21/07/05 am 10:12, fe chwaraeodd y defnyddiwr y canlynol:
    - Lefel Ganolig y Weithgaredd Lliwio bedair gwaith, a'i gwblhau'n llwyddiannus dair gwaith.
    - Lefel Hawdd y Weithgaredd Ddarllen dair gwaith, a'i gwblhau'n llwyddiannus dair gwaith.
    - Lefel Ganolig y Weithgaredd Ddarllen dair gwaith, ond dim ond unwaith y'i cwblhawyd yn llwyddiannus.
    - Lefel Hawdd y Weithgaredd Ysgrifennu unwiath a'i gwblhau'n llwyddiannus.

©2005 B-DAG Ltd.